OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 431 (Cy. 139)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Clawdd Poncen i Lanbedr Dyffryn Clwyd, Sir Ddinbych) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Mawrth 2016* |
| *Yn dod i rym* | *21 Mawrth 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Mawrth 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Clawdd Poncen i Lanbedr Dyffryn Clwyd, Sir Ddinbych) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro) 2016.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o

luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period"*) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 21 Mawrth 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "lluoedd arbennig" (*"special forces"*) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" (*"the lengths of the trunk road"*) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd yn Sir Ddinbych a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**Atal Dros Dro**

**5.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**6.** (1) Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Mawrth 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN
## Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 200 metr i’r de o ganolbwynt ei chyffordd â’r A5104 wrth Glawdd Poncen hyd at bwynt 200 metr i’r gogledd o’r gyffordd honno.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth sy’n arwain at yr annedd o’r enw Hendre Bryn Cyffo, i’r de o Wyddelwern, hyd at ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth sy’n arwain at yr anheddau o’r enw Siambr-wen a Bryn Gwenallt, i’r gogledd o Wyddelwern.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth sy’n arwain at Efenechtyd, i’r de-orllewin o Bwll-glas, hyd at ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth sy’n arwain at Lanfair Dyffryn Clwyd (cyffordd Pont Eyarth).

Y darn o’r gefnffordd wrth Lanbedr Dyffryn Clwyd sy’n ymestyn o’i chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth o’r enw Lôn Cae Glas hyd at ei chyffordd â’r trac diddosbarth sy’n arwain at yr annedd o’r enw Cae Mawr, i’r de-ddwyrain o Lanbedr Dyffryn Clwyd.